| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Polisi Indemniadau** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar adolygiad y Gwasanaethau Democrataidd ar Bolisi Indemniadau'r Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn caniatáu awdurdodau lleol i gynnig indemniadau (ac yswiriant) i aelodau a swyddogion wrth ryddhau dyletswyddau eu rolau priodol. Cafodd y pwerau a roddwyd gan y Gorchymyn eu mabwysiadu gan y Cyngor hwn yn 2011 pan wnaed y penderfyniad i gynnig indemniadau i aelodau a swyddogion yn ôl polisi ('y Polisi') a fabwysiadwyd ar yr un pryd. Yn 2013, diwygiwyd y Polisi er mwyn cynnwys argymhelliad gan Lywodraeth Cymru fod unrhyw indemniad a gymeradwyir dan y Gorchymyn, fel bo aelod etholedig yn cael amddiffyn ei hun rhag honiad ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad, yn cael ei gyfyngu i uchafswm o ugain mil o bunnoedd.

1.2 Ar 29 Tachwedd 2023, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda chais fod y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Polisi cyfredol. Mae copi o'r Polisi cyfredol wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

1.3 Mae'r adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o faterion a ellid ymdrin â nhw gydag indemniadau eisoes wedi cael eu cynnwys dan yswiriant sydd ar waith gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae un maes lle nad oes dim yswiriant ar gael, ac mae'n disgyn o fewn cwmpas y Gorchymyn a'r Polisi, sef y pŵer i gynnig indemniad ar gyfer y costau i aelod etholedig amddiffyn ei hun rhag unrhyw honiad ei fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor.

1.4 Bydd yr Is-bwyllgor Indemniadau sydd wedi'i sefydlu yn gyfrifol am ystyried unrhyw gais a wneir gan aelod dan y Polisi.

## 2. RÔL Y PWYLLGOR SAFONAU

1.1 Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau wneud penderfyniad ynghylch cwyn sy'n cael ei hatgyfeirio i'r Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) dan Ran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf). Gall hyn godi o ganlyniad i un ai:

(a) Mae'r OGCC wedi gohirio archwiliad ac wedi atgyfeirio'r mater i'r Swyddog Monitro dan adran 70(4) y Ddeddf, ac mae'r Swyddog Monitro yna'n archwilio'r mater ac yn adroddiad canfyddiadau ei archwiliad ef/hi i'r Pwyllgor.
neu
(b) Mae'r OGCC yn cwblhau archwiliad ac yna'n atgyfeirio'r materion sy'n destun archwiliad gan y Swyddog Monitro dan adran 71(2) y Ddeddf er mwyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau.

2.1 Efallai y bydd aelod sy'n wynebu honiadau eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad angen cyngor a chymorth cyfreithiol. Dylai'r aelod ystyried a ydynt yn gymwys i wneud cais dan y Polisi. Gwneir penderfyniad ynghylch ceisiadau o'r fath gan yr Is-bwyllgor Indemniadau yn unol â'r Polisi.

2.2 Mewn achosion lle canfyddir bod aelod etholedig wedi torri'r Cod, ac yn destun cosb o waharddiad neu ddiarddeliad, mae'r gyfraith yn gofyn fod yr aelod yn ad-dalu unrhyw indemniad a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Indemniadau. Os yw'r gosb a roddir yn llai dwys na gwaharddiad, bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch y gofyniad i'r aelod ad-dalu'r indemniad.

## 3. DIWEDDARIAD GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

3.1 Roedd y Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno gyda'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad.

3.2 Gofynnodd hefyd fod y cyfyngiad o £20,000 yn cael ei adolygu yn ystod yr adolygiad rheolaidd nesaf o'r Polisi, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r cynnydd mewn chwyddiant ers cyflwyno'r cyfyngiad am y tro cyntaf.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Fod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys y Polisi Indemniadau a'r rôl y mae'n bosib y bydd angen ymgymryd â hi mewn perthynas ag indemniadau sydd wedi cael eu cymeradwyo i aelodau y canfyddir eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.